

# LLAWLYFR





# CROESO



Annwyl Rieni,

Gyda'r pleser mwyaf y cyflwynaf lawlyfr yr ysgol i'ch sylw, a hoffwn estyn croeso cynnes i chi fel rhieni ac i'ch plentyn i Ysgol Gymuned Bryngwran.

Ein nôd yma yw sicrhau'r cyfle gorau posibl i'ch plentyn mewn awyrgylch hapus, cartrefol a symbylus lle dangosir parch at bob unigolyn. Anelwn at sicrhau bod pob disgybl yn cael y cyfle i ddatblygu i'w lawn botensial a ffynnu o fewn yr hyn mae'n gallu gyflawni. Credaf fod cyd-weithio agos rhwng yr ysgol a'r cartref yn holl bwysig ac yn gosod seiliau cadarn ar gyfer adeiladu arni. I'r perwyl hwn rydym fel ysgol yn llwyr ymroi er lles eich plentyn a gofynnwn i chwithau rieni ymglymu mewn partneriaeth â ni sy'n dangos eich ymrwymiad er lles eich plentyn. Croesawir a gwerthfawrogir eich cefnogaeth a'ch cymorth ymhob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol.

Os mai Ysgol Gymuned Bryngwran yw eich dewis i'ch plentyn gallaf eich sicrhau y bydd yn derbyn gofal ac addysg o'r radd flaenaf gan dîm o athrawon a chymorthyddion brwdfrydig ac ymroddedig. Mawr obeithiaf y byddwch chi a'ch plentyn yn hapus iawn yma.

Mae croeso i rieni sy'n ystyried anfon eu plant i'r ysgol hon ymweld â'r ysgol trwy drefnu ymlaen llaw.

Am unrhyw wybodaeth bellach cysylltwch â'r ysgol.

Yn gywir iawn,

*Dwynwen Llwyd Powell*

Pennaeth

# MANYLION



**Ysgol Gymuned Bryngwran**

**Bryngwran**

**Ynys Môn**

**LL65 3PP**

**☎ (01407) 720 400**

**✉ [pennaeth.bryngwran@ynysmon.gov.uk](mailto:pennaeth.bryngwran@ynysmon.gov.uk)**

**Gwefan - [ysgolgymunedbryngwran.org](http://ysgolgymunedbryngwran.org)**

**Pennaeth : Dwynwen Llwyd Powell**

**Cadeirydd y Llywodraethwyr: Ms Natalie Jones**

## **Polisi Mynediad:**

Ysgol gymuned sirol yw Ysgol Gymuned Bryngwran sy'n derbyn disgyblion i'r ysgol yn unol â Pholisi Sirol o ddechrau Medi yn dilyn eu pen blwydd yn 4 oed.

Derbynnir plant i'r dosbarth meithrin am ddwy awr bob dydd o ddechrau Medi yn dilyn eu pen blwydd yn 3 oed.

Mae Ysgol Gymuned Bryngwran yn ysgol ddyddiol, ddwyieithog, gyd-addysgol sy'n addysgu disgyblion o 3 – 11 oed.

## **Staff yr Ysgol:**

Pennaeth

Mrs. Dwynwen Llwyd Powell

Staff Addysgu:

Mrs. Dwynwen Llwyd Powell

Mrs. Joanne Turnbull (Cyfnod Sylfaen)

Mrs. Andrea Scase Thomas (Adran Iau)

Cymorthyddion Dosbarth

Mrs. Rachel Hughes

Ms Annwen Jones

Mrs. Lisa Evans

Ms Rhian Haf Williams

Ysgrifenyddes yr Ysgol:

Mrs. Nia Michael

Goruchwyliwr Clwb Brecwast ac Amser Cinio

Mrs. Eluned Williams

Cogyddes yr Ysgol:

Mrs. Clare Cresswell

Gofalwraig yr Ysgol:

Ms. Beryl Picton

# LLYWODRAETHWYR



<b>3 o Lywodraethwyr Rhieni</b> <b>3 Parent Governors</b>	<b><u>Dyddiad daw'r swydd i ben</u></b> <b><u>Date term of office ends</u></b>
Ms Natalie Jones	31.08.2020
Mr Kevin Humphreys	31.08.2020
Mrs Debby Michael	31.08.2018
<b>2 o Lywodraethwyr AALI</b> <b>2 LEA Governors</b>	
Cyng. Bob Parry	31.08.2020
Mrs Marian Parry	31.08.2018
<b>2 o Lywodraethwyr Addysgu</b> <b>2 Teacher Governor</b>	
Mrs Joanne Turnbull	-
Mrs Andrea Scase Thomas	-
<b>1 Llywodraethwraig Staff Ategol</b> <b>1 Ancillary Staff Governor</b>	
Mrs Clare Cresswell	31.08.2020
<b>2 o Lywodraethwyr Cyfetholedig</b> <b>2 Co-opted Governors</b>	
Mr Gwyn Williams	31.08.2020
Mrs Amanda Earnshaw	31.08.2020
<b>1 Lywodraethwr Cyngor Lleiaf</b> <b>1 Sponsor Governor</b>	
Mrs Eirian Huws	31.08.2018
<b>Pennaeth</b> <b>Headteacher</b>	Ex-officio
Mrs Dwynwen Llwyd Powell	

## **Clerc/Clerk**

Miss Sioned Parry, Newidfa, Bryngwran, Ynys Môn

## **Cadeirydd/Chairperson**

Mrs Margaret Jones, Gwaenfynydd, Bryngwran, Ynys Môn.

# DYDDIADAU



## Gwyliau ysgol

**2017-20178**

### TYMOR:

Hydref 2017: 1 Medi 2017 - 22 Rhagfyr 2017

Gwanwyn 2018: 8 Ionawr 2018 - 23 Mawrth 2018

Hâf 2018: 9 Ebrill 2018 - 20 Gorffennaf 2018

**Ysgolion yn agor i blant ar Ddydd Llun 4 Medi 2017.**

### GWYLIAU:

30 Hydref - 3 Tachwedd 2017 (Hanner-Tymor)

25 Rhagfyr 2017 - 5 Ionawr 2018 (Gwyliau'r Nadolig)

12 - 16 Chwefror 2018 (Hanner-Tymor)

26 Mawrth 2018 – 6 Ebrill 2018 (Gwyliau'r Pasg)

7 Mai 2018 (Calan Mai)

28 Mai – 1 Mehefin 2018 (Hanner-Tymor)

Ysgol yn cau am wyliau Haf ar Ddydd Gwener 20 Gorffennaf 2018.



Sefydlwyd ysgol Bryngwran ymhell dros 100 mlynedd yn ôl i ddarparu addysg i blant y pentref yn wreiddiol, ond bellach mae'n gweinyddu cymuned ehangach. Mae'n ysgol gymunedol sydd yn darparu addysg ar gyfer disgyblion o 3-11 oed. Cymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol a phrif gyfrwng yr addysgu.

Ein nôd yw sicrhau addysg o'r ansawdd orau bosibl i'r holl ddisgyblion, yn unol â'u hoedran a'u gallu fel eu bod yn datblygu i'w llawn botensial; i fod yn unigolion hyderus, yn ymwybodol o lês eraill, yn parchu credoau a thrâs eraill, ac yn aelodau cyfrifol o'r gymdeithas y maent yn byw ynddi.

## Amcanion Cyffredinol -

- ◆ Sicrhau amgylchedd ble gall pob plentyn deimlo'n hapus, diogel a chartrefol.
- ◆ Annog y plant i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob sefyllfa, boed yn addysgiadol neu yn gymdeithasol.
- ◆ Datblygu gallu disgyblion i fod yn hyderus ddwyieithog, fel y gallant gymryd rhan lawn ym mywyd gymdeithasol a diwylliannol y gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.
- ◆ Galluogi plant i ddatblygu y sgiliau angenrheidiol i wynebu sialensau y byd cyfoes.
- ◆ Sefydlu awyrgylch hapus a gweithgar sy'n seiliedig ar gyd-berthynas o barch a gofal a fydd yn galluogi disgyblion i ymagweddu'n bositif a datblygu hunan-ddisgyblaeth a hunan-hyder.
- ◆ Sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfle cyfartal trwy ddarparu cwricwlwm perthnasol, gwahaniaethol, eang a chytbwys a'i gyflwyno mewn dull bywiog a diddorol sy'n ysgogi chwilfrydedd a dychymyg y plant.
- ◆ Cynnig addysg o'r radd uchaf posibl sydd yn cwrdd ag anghenion yr unigolyn, y gymdeithas, yr Awdurdod Addysg a'r Llywodraeth.
- ◆ Creu yr awydd ym mhob plentyn i geisio am fwy o wybodaeth a datblygu ei feddwl a'i synnwyr moesol ac ysbrydol.
- ◆ Gwneud defnydd effeithiol o'r gofod a'r adnoddau sydd ar gael.
- ◆ Sicrhau cyfle i hyfforddi staff yn ôl gofynion ac anghenion y disgyblion, yr ysgol a datblygiad proffesiynol unigolion. Gwerthfawrogi a manteisio ar wahanol arbenigeddau o fewn yr ysgol.
- ◆ Sicrhau fod yr ysgol yn ateb gofynion lechyd a Diogelwch. Creu amgylchedd diddorol fydd yn symbylu gwerthfawrogiad o'r cain a'r prydferth.
- ◆ Meithrin cysylltiadau agos rhwng yr ysgol a'r cartref, y gymuned, yr ysgol feithrin a'r ysgol uwchradd.

# CYFLWYNIAD



## AWYRGYLCH AC ETHOS

Ein nod yw sefydlu awyrgylch hapus a gweithgar sy'n seiliedig ar gydberthynas o barch a gofal, athrawon a disgyblion, a disgyblion â'i gilydd, fydd yn galluogi plentyn i ymagweddu'n gadarnhaol a datblygu hunan-hyder ynghyd â hunan-ddelwedd bositif fel y bo'n parchu ei hun heb fod yn drahaus. Sicrhau bod pob disgybl yn teimlo'n rhan o gymdeithas ddisgybledig sy'n rhoi bri ar werthoedd moesol, ysbrydol a dyngarol.

## ATHRAWON A STAFF

Prif adnodd pob ysgol yw ei hathrawon a'u gallu i greu a chynnal perthynas hapus â'r plant. Yr ydym yn ffodus iawn ym Mryngwran fod gennym athrawon a staff cefnogi ymroddedig sy'n rhoi pwyslais ar ansawdd y berthynas rhwng oedolyn a disgybl er mwyn hyrwyddo datblygiad academaidd a phersonol pob un. Credwn mai'r athrawes sy'n llwyddo orau yw'r un a ddaw i adnabod ei disgyblion fel unigolion, sy'n ymwybodol o'u bywydau y tu allan i'r ysgol ac sy'n barod bob amser i barchu a rhoi bri ar eu profiadau a'u hymdrechion i ddygymod â nhw. Bydd yn awyddus i hyrwyddo'u bywydau fel unigolion.

Mae athrawon yr ysgol yn meithrin ac yn datblygu perthynas unigryw â'r disgyblion sydd yn eu gofal ac yn eu harwain a'u cynnal yn fedrus ar eu taith ddysgu.



# ARWEINIAD



## RHEOLAU

Credwn ei bod yn bwysig cael rhai rheolau er mwyn sicrhau safonau mewn ymddygiad, ymddangosiad a diogelwch. Hoffem dynnu eich sylw at y canlynol:

### **Prydlondeb**

Dylid cyrraedd yr ysgol yn brydlon, 8.00-8.25yb i'r Clwb 'Ben Bore Bach' - Y Clwb Gofal cyn ysgol; 8.25-8.50yb i'r Clwb Brecwast neu erbyn 9.00 o'r gloch yn brydlon ar gyfer cofrestru. Mae'r ysgol yn gyfrifol am blant o 8.00yb i 3.40yh. Nid yw'r ysgol yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw niwed i blant na'u heiddo sy'n digwydd mwy na 10 munud cyn dechrau swyddogol yr ysgol, na mwy na 10 munud wedi diwedd y dydd. Cyfrifoldeb y rhieni yw sicrhau bod eu plant yn cyrraedd yr ysgol yn y bore ac yn dychwelyd adref ar ddiwedd y dydd yn ddiogel.

**Dylid rhoi gwybod i aelod o staff os oes unrhyw newidiadau i drefniadau arferol.**

### **Absenoldeb**

**Os yw eich plentyn yn absennol dylid cysylltu â'r ysgol i egluro pam.**

Cynghorir pob rhiant i sicrhau fod pob plentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Gwerthfawrogir nodyn, galwad ffôn neu e-bost yn esbonio pob absenoldeb er mwyn osgoi ymholiadau swyddogol. Gall hyd yn oed absenoldeb byr amharu ar ddilyniant a datblygiad addysg eich plentyn.

Dylid cwblhau ffurflen arbennig pan fydd teulu'n trefnu gwyliau blynyddol yn ystod y tymor ysgol.

### **Maes Parcio**

**Rhaid defnyddio'r llwybrau dynodedig pwrpasol bob amser.**

Mae sicrhau diogelwch wrth gyrraedd a gadael safle'r ysgol o'r pwys mwyaf inni. Mae'r llwybrau dynodedig pwrpasol sy'n amgylchynu'r maes parcio i'w defnyddio wrth gerdded ar y safle a mynnwn fod y plant yn eu defnyddio'n feunyddiol.

### **Byrbryd**

Caniateir i'r plant fwyta ffrwythau yn ystod yr amser chwarae boreol. Gwerthir ffrwythau'n ddyddiol 25c y dydd

Ni chaniateir bwyta fferins yn yr ysgol, nac ychwaith yfed diod byrlymus.

Ni ddylid dod a photeli gwydr na chaniau diod i'r ysgol.

### **Diod**

Mae ffynnon ddŵr wedi ei lleoli yn y ffreutur a chaiff y plant fynediad ati i lenwi poteli dŵr. Mae poteli dŵr ar gael i'w prynu yn yr ysgol. Cyfrifoldeb y plentyn ydi cludo'r botel adre i'w golchi.

Mae plant y Cyfnod Sylfaen yn cael llaeth am ddim yn ddyddiol.

# CYFATHREBU



## IAITH YR YSGOL

Rydym yma, fel ymhob ysgol arall ym Môn, yn dilyn Polisi Iaith Awdurdod Addysg Ynys Môn, drwy fod yn ysgol ddwyieithog ac iddi'r nod o sicrhau bod ei holl ddisgyblion yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys oed-berthansol. Mae egwyddorion a gofynion y Siarter Iaith yn cael eu harddel a'u hyrwyddo.

Cymraeg yw'r prif gyfrwng ieithyddol a phrif gyfrwng cyfathrebu ac addysgu. Cyflwynir y Gymraeg i blant o gartrefi di-Gymraeg yn ofalus ac ystyriol, a gwneir defnydd o'r Saesneg yn y cam cychwynnol yma. Canolbwyntir, yn bennaf, ar ddatblygu gallu'r disgyblion yn y Gymraeg yn ystod y Cyfnod Sylfaen; addysgir y Gymraeg a'r Saesneg ochr yn ochr yn ystod cyfnod yr Adran Iau.

Yr amcan yw datblygu gallu disgyblion i fod yn hyderus ddwyieithog er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.

Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni yn y naill iaith a'r llall, yn unol â gofynion ieithyddol y rhieni.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i hyrwyddo egwyddorion Siarter Iaith Môn.

## Y CWRICWLWM

Mae pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen yn cael profiad o feysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen drwy gyfrwng y Gymraeg a throchir plant di-Gymraeg mewn modd sensitif ac ystyriol.

Cymraeg yw'r prif gyfrwng addysgu yng Nghyfnod Allweddol 2 ac mae o leiaf 70% o'r addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Caiff Saesneg ei gyflwyno yn ffurfiol fel pwnc yng Nghyfnod Allweddol 2 a chaiff ei addysgu drwy gyfrwng y Saesneg, ac mae'n bosibl y defnyddir Saesneg hefyd ar gyfer rhai agweddau ar rai pynciau.

Gwneir darpariaeth arbennig ar gyfer hwyr-ddyfodiaid i'r Adran Iau.

## DEILLIANNAU

Fel rheol disgwylir y bydd disgyblion, waeth beth fo iaith y cartref, yn trosglwyddo yn rhwydd i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg uwchradd ac erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2 byddant wedi cyrraedd safon yn y Saesneg sy'n cyfateb i'r safon y mae disgyblion mewn ysgol cyfrwng pennaf Saesneg yn ei gyrraedd.

# TREFNIADAETH



## O DDYDD I DDYDD

Dosbarth	Sesiwn y Bore	Sesiwn Prynhawn
Meithrin (Llun - Iau)	9.30-12.00am	Cylch Meithrin
Cyfnod Sylfaen	9.00 -12.00am	1.00 -3.15pm
Adran Iau	9.00 -12.00am	1.00 -3.30pm
Cyfanswm oriau dysgu Cyfnod Sylfaen	26¼ awr	
Cyfanswm oriau dysgu Adran Iau	27½awr	

## MYNEDIAD I'R YSGOL

Gofynnwn yn garedig i rieni drosglwyddo cyfrifoldeb eu plant i ofal yr ysgol wrth ddrws yr adeilad – drws y ffreutur i'r Clwb Gofal/Brecwast, o'r iard yn brydlon i pawb arall. Gofynnwn yn garedig i rieni osgoi cerdded trwy'r ysgol.

Dylai pawb fod wedi cyrraedd yr ysgol yn brydlon erbyn amser cofrestru am 9.00 o'r gloch. Bydd y gofrestr yn cau yn brydlon am 9.10 o'r gloch a bydd cofnod 'hwyr' yn cael ei nodi ar ôl hynny.

## RHEOLAU AUR

Caiff plant yr ysgol gyfle i lunio set o reolau perthnasol yn ystod gwersi ABaCh a hyrwyddir ymddygiad cwrtais, parchus a bonheddig yn gyson.

Rydym yn ystyried rhinwedd 'chwarae teg' yn ran bwysig o'n trefn ddyddiol yn yr ysgol ac yn hyrwyddwyr cyson.

## CYSYLLTU Â'R YSGOL

### Trefniant ymweld

Yn naturiol, mae croeso i rieni gysylltu â'r ysgol unrhyw adeg. Awgrymir ei bod yn fwy hwylus cysylltu rhwng 8.30-9.00yb a 3.30-4.00yh. Os am drafod mater penodol, dylid trefnu cyfarfod ymlaen llaw.

Bydd cyfleoedd ffurfiol i rieni gyfarfod yr athrawon dosbarth i drafod datblygiad eu plant yn dymhorol.

# TREFNIADAETH



## IECHYD A DIOGELWCH

Cymerir pob gofal posib am ddiogelwch y plant tra byddant yn yr ysgol. Os bydd plentyn yn sâl neu mewn damwain cysylltir â'r rhieni, yna os bydd angen eir â'r plentyn i Ysbyty Gwynedd neu cysylltir â'r gwasanaethau brys.

Rhoddir moddion i blentyn mewn achosion arbennig yn unig—a hynny ar ôl derbyn cyfarwyddyd a chaniatad ysgrifenedig gan riant.

Ni chaniateir i blentyn adael yr ysgol yn gynnar heb ganiatâd. Os bydd newid yn y modd y bydd plentyn yn mynd adref, gofynnir i'r rhieni ddweud wrth y Pennaeth neu athro'r plentyn o flaen llaw am y trefniadau a wnaed.

Mae'r ysgol yn adolygu trefniadau iechyd a diogelwch ar gyfer y disgyblion a staff yn gyson.

Rhaid i bob ymwelydd ganu'r gloch wrth y brif fynedfa cyn cael mynediad i'r ysgol a bydd disgwyl iddynt gyflwyno eu hunain i'r Pennaeth. Mae gan yr ysgol system larwm lladron, a cheir 'ymarferion tân' yn rheolaidd.

## CLWB BRECWAST

Mae Clwb Ben Bore Bach (clwb gofal bore) ar agor o 8.00am bob bore, 75c y plentyn. Darperir brechwast ysgol yn ddyddiol. Mae'n rhad ac am ddim ac ar gael i holl ddisgyblion yr ysgol. Gweinir grawnfwyd, sudd ffrwythau a thost.

Caiff brechwast ei weini o 8.00-8.40yb.

Goruchwylir y Clwb Brechwast gan Mrs Eluned Williams.

## CINIO

Darperir cinio ysgol iachus yn ddyddiol gan gwmni CATERLINK .

Pris cinio ysgol ar hyn o bryd yw £2.20 y dydd, neu £11.00 yr wythnos.

Dylid dod ag arian cinio i'r ysgol ar fore **Llun** neu **Gwener** mewn amlen wedi ei selio gyda enw'r plentyn yn glir arno.

Gellir talu am ginio trwy system 'School comms' ar lein.

Mae'r ysgol yn anelu at fod yn ysgol ddi-bres ble telir holl gostau ar lein felly anogwn y defnydd o 'School Conn'.

Dylid gwneud sicciau arian cinio yn daladwy i 'Cyngor Sir Ynys Môn'.

### **Pecyn Bwyd**

**Fel ysgol iach anogir y plant i fwyta pecyn bwyd iachus i ginio.**

# CWRICWLWM



## RHAGAIR

Pwrpas cyfundrefn addysg yw creu sefyllfaoedd a chyflenwi adnoddau fydd yn galluogi pob plentyn i dyfu yn bersonoliaeth lawn, i ddatblygu ac ymarfer ei holl ddoniau, fydd yn darparu ar ei gyfer yn ôl oedran, gallu a diddordeb, ac yn ei gymhwyso i fod yn aelod cyfrifol o gymdeithas ddwyieithog, yn aelod fydd yn gallu cyfrannu iddi a derbyn oddi wrthi, a byw mewn heddwch a brawdgarwch gyda'i gyd-ddyn.

Y mae i'r datganiad cyffredinol hwn dair agwedd gyd-berthnasol:

1. Galluogi pob plentyn i ddatblygu i'w lawn botensial.
2. Sicrhau bod pob plentyn yn cael ei gyflwyno i etifeddiaeth Gymreig.
3. Rhoi cyfle i bob plentyn ddatblygu fel aelod llawn o gymdeithas sy'n prysur newid.

## AMCANION CYFFREDINOL

- ◆ Cyflwyno cwricwlwm cytbwys, eang sy'n ymwneud â datblygiad ysbrydol, moesol, meddyliol, cymdeithasol, corfforol ac emosiynol y plentyn.
- ◆ Datblygu sgiliau llafaredd, llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth yng nghyd-destun symbylu chwilfrydedd, dychymyg a diddordeb y plentyn.
- ◆ Cynyddu gwybodaeth y plentyn a datblygu ei allu i resymu er mwyn ei gynorthwyo i addasu i fyd sy'n gyflym newid ac yn mynd yn fwy soffistigedig yn ei brosesau a'i dechnegau, yn arbennig mewn perthynas â thechnoleg gwybodaeth.
- ◆ Creu ym mhob plentyn yr awydd i geisio am fwy o wybodaeth a phrofiadau yn ystod ei fywyd, a datblygu ei feddwl a'i synnwyr moesol ac ysbrydol.
- ◆ Cynorthwyo'r plentyn i fedru byw a gweithio gydag eraill a datblygu agweddau fydd yn ei alluogi i fod yn aelod cyfrifol o gymdeithas.
- ◆ Datblygu yn y plentyn sensitifrwydd, gwerthfawrogiad esthetig a sgiliau hamdden.
- ◆ Rhoi sylw arbennig i bob plentyn sydd ag anghenion arbennig, e.e. rhai eithriadol o alluog a rhai sydd o dan anfanteision amrywiol.
- ◆ Cyflwyno syniadau a chysyniadau a hynny trwy ddulliau bywiog a deinamig sy'n hawlion ymateb y disgybl.

# CWRICWLWM



## CYFNOD SYLFAEN

Cyflwynir profiadau i blant 3 i 7 oed yn seiliedig ar Fframwaith y Cyfnod Sylfaen.

Addysgir y plant trwy weithgareddau chwarae strwythuredig sydd wedi eu cynllunio'n fwrriadus ac sy'n cyfateb i chwe maes dysgu allweddol, -

- ◆ Personol, Cymdeithasol, LLêS ac Aml-ddiwylliannol
- ◆ Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
- ◆ Datblygiad Mathemategol
- ◆ Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd
- ◆ Datblygiad Corfforol
- ◆ Datblygiad Creadigol.

Mae'r Ardal Allan wedi ei chynllunio ar gyfer gweithgareddau awyr agored a defnyddir gardd yr ysgol i gynnal gweithgareddau amrywiol i symbylu ac atgyfnerthu'r dysgu.

# CWRICWLWM



## CYFNOD ALLWEDDOL 2

Caiff disgyblion CA2 eu trwytho a'u datblygu trwy weithgareddau'n seiliedig ar thema arbennig yn dymhorol. Mae'r gwaith gaiff ei baratoi yn seiliedig ar y canllawiau amlinellir yn Y Cwricwlwm Cenedlaethol; Rhaglen Astudio sy'n cynnwys Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd; Y Fframwaith Sgiliau ac hefyd yn hyrwyddo Medrau Meddwl sydd yn annog a meithrin annibyniaeth. Cyflwynir Cymraeg, Saesneg, Mathemaeteg, Gwyddoniaeth, Technoleg, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, Hanes, Celf, Daeryddiaeth, Cerddoriaeth, Addysg Grefyddol ac Addysg Gorfforol.

Mae Addysg Bersonol a Chymdeithasol hefyd yn rhan statudol o'r cwricwlwm.

## GWAITH CARTREF

Gosodir gwaith cartref ar ffurf Log Dysgu yn rheolaidd. Mae'r log yn ddull pen agored i chi ymchwilio a gweithio'n ddychmygus a chreadigol wrth ei gwblhau.

Bydd y plant hefyd yn cludo llyfrau darllen adref ac mae cydweithrediad y cartref i sicrhau cynnydd yn hanfodol.

Erfynnir am gydweithrediad a chefnogaeth y cartref i hybu pob agwedd o waith y plant.

Bydd disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn mynd a'u llyfrau i'w darllen adref yn ddyddiol ac anogir rhieni i sicrhau fod y pecyn darllen yn cael ei gludo i'r ysgol yn ddyddiol.

Bydd disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn mynd a'u llyfrau i'w darllen adref yn wythnosol ac anogir rhieni i sicrhau fod y pecyn darllen yn cael ei gludo i'r ysgol ar ddechrau'r wythnos i newid llyfrau.

Gosodir gwaith cartref 'Her a Hwyl' yn rheolaidd.

Ambell dro bydd gweithgaredd arbennig yn gofyn am wybodaeth gan rieni, perthnasau a chymdogion, neu'n gofyn am waith holi a darganfod ar ran y plant. Sylweddolir mai cyfrifoldeb y cartref yw'r plentyn yn ystod yr oriau hyn ac mai yng ngoleuni'r cyfrifoldeb hwnnw y bydd rhieni yn cytuno, neu'n anghytuno i gydweithredu.

O dro i dro fe all athrawes ofyn i blentyn wneud gwaith ychwanegol – er mwyn diwallu unrhyw wendid neu ganolbwytio ar agwedd arbennig o'r gwaith. Bryd hynny gobeithir cael cydweithrediad llwyr y cartref ac anogaeth i'r plentyn i wneud y gwaith.

## ADDYSG BERSONOL A CHYMDEITHASOL

Ein nôd yw sicrhau datblygiad cymdeithasol a phersonol y disgyblion. Mae Addysg Bersonol a Chymdeithasol - ABaCh yn treiddio drwy holl weithgareddau'r ysgol.

Amcanion

- ◆ Datblygu hunan-barch a pharch tuag at eraill drwy feithrin sensitifrwydd, gwerthoedd moesol a gofal tuag at eraill. Hybu goddefgarwch tuag at wahanol hiliau, crefyddau a ffyrdd o fyw.
- ◆ Creu ethos o fewn yr ysgol fydd yn sicrhau fod y plant yn gallu gofyn cwestiynau ac ymateb i sefyllfaoedd mewn awyrgylch gartrefol lle y caiff plant ymdeimlad o sicrwydd.
- ◆ Sicrhau fod y plant yn cael yr wybodaeth gywir ynglyn â datblygiad a phrosesau'r corff a'r amodau sy'n hybu twf a datblygiad iach.
- ◆ Sicrhau fod y plant yn ymwybodol o beryglon yn yr ysgol, yn y cartref ac yn yr amgylchedd leol.
- ◆ Datblygu dealltwriaeth o'r cyd-ddibyniaeth rhwng unigolion, grwpiau a chenedloedd. Gwerthfawrogi cyfraniadau gwahanol wasanaethau yn y gymuned.

## ADDYSG BYWYD A PHERTHASOEDD

Penderfyniad y Corff Llywodraethol yw y dylai Addysg Bywyd a Pherthnasoedd, gan gynnwys Addysg Rhyw fod yn rhan o raglen Addysg Iechyd yr ysgol. Sicrheir caniatad rhieni cyn ymgymryd â gweithgareddau a bydd llythyr yn cael ei anfon adref i hysbysu rhieni o weithgareddau perthnasol. Gall rhieni ofyn i weld unrhyw ddeunydd a ddefnyddir. Cyfyd rhai agweddau'n naturiol mewn gweithgareddau maes Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd (CS) a Gwyddoniaeth (CA2). Mae gan rieni hawl i eithrio eu plant o rannau o'r gwersi Addysg Rhyw a gyflwynir pe dymunir.

## ADDYSG GREFYDDOL

Mae gwasanaethau boreol yr ysgol yn rhan bwysig o ethos ac ymdeimlad yr ysgol. Cysylltir yr agwedd grefyddol â phrofiadau plant yn eu bywydau beunyddiol, gan bwysleisio'r agwedd o feddwl am eraill a gofalu amdanynt. Mae'r Gwasnaeth ysgol gyfan a gynhelir yn y neuadd yn rhan bwysig o ddatblygu'r ymdeimlad o gymdeithas. Cyflwynir gwybodaeth am grefyddau'r byd ond pwysleisir y grefydd Gristnogol. Cefnogir yr ysgol gan Reithor y Plwyf. Daw Tîm Agor y Llyfr i gyflwyno Stori Feiblaidd yn wythnosol. Yn achlysurol gwneir casgliadau tuag at achosion dyngarol lleol a chenedlaethol.



# CWRICWLWM



## ADDYSG ARBENNIG

Mae Deddf Addysg 1981 yn rhoi dyletswyddau statudol ar yr ysgol i ddiwallu anghenion yr holl ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig o fewn ysgolion prif-lif.

Mae'r ysgol hon yn cyd-fynd ac yn cefnogi'r egwyddor o integreiddio plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgol prif-lif ar yr amod:

- ◆ fod y lleoliad er llês addysgol y plentyn
- ◆ fod y lleoliad yn unol â dymuniad y rhieni
- ◆ y gwneir defnydd effeithiol o adnoddau
- ◆ y rhoir ystyriaeth i lês y disgyblion eraill

Ein nôd yw cwrdd ag anghenion arbennig disgyblion er mwyn eu galluogi i ddatblygu i'w llawn botensial.

### **Adnabod Plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Bydd yr ysgol yn dilyn camau a restrir yn 'Rhestr Argymhellion ar Adnabod Anghenion Arbennig a'u Hasesu'. Cedwir cofrestr o blant ag anghenion dysgu ychwanegol yn yr ysgol.

### **Trefniadaeth**

Rhoir cymorth ac arweiniad ychwanegol i rai plant o fewn y dosbarth tra bydd eraill yn cael cymorth yn unigol, neu mewn grwpiau bach. Pan mae angen, gofynnir am gyngor y Seicolegydd Addysg a chyfeirir plant am asesiad gan yr Awdurdod Addysg. Ceisir cael cydweithrediad a chefnogaeth y rhieni bob amser.

### **Anabledd Corfforol**

Mae gan yr ysgol rampiau at y prif fynedfeydd, ac y mae pob ystafell ddosbarth ar yr un lefel. Mae gan yr ysgol Gynllun Mynediad yn unol â gofynion Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd.

### **Polisiau Cyfle Cyfartal, Cydraddoldeb Hiliol ac Amrywiaeth Diwylliannol**

Mae polisiau'r ysgol yn datgan na wahaniaethir ar sail hil, rhyw nag anghenion arbennig, ac y dangosir parch tuag at bob unigolyn o fewn cymdeithas yr ysgol. Gall rhieni ofyn i weld polisiau llawn yr ysgol.

# TRACIO AC ASESU



## TRACIO

Cedwir cofnod manwl o gynnydd pob plentyn gan ddechrau gyda Asesiad Sylfaen ar ddyfodiad y plentyn i'r ysgol am y tro cyntaf. Rhydd deilliannau'r asesiad sylfaen waelodlin sy'n fan cychwyn i adeiladu arni.

Byddwn wedyn yn tracio datblygiad pob plentyn yn dymhorol ac yn asesu ar gyfer dysgu yn gyson.

## ASESU

Caiff plant yr ysgol eu hasesu yn unol â gofynion statudol. Defnyddir system 'Incerts' i dracio ac asesu cynnydd pob plentyn yn yr ysgol. Rhoddir profion darllen i blant yn ystod Tymor yr Hydref a thymor yr Haf. Profir datblygiad Llythrennedd a Rhifedd plant Blwyddyn 2-6 yn ystod mis Mai gyda'r Profion Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol. Adroddir i rieni ar ganfyddiadau profion yn ystod nosweithiau rhieni ac mewn Adroddiad Blynyddol ar ddiwedd blwyddyn addysgol.

Daw canlyniadau Profion Cenedlaethol trwy law Llywodraeth Cymru

## ADRODD I RIENI

Cynhelir nosweithiau rhieni yn dymhorol a gwahoddir rhieni i drafod cynnydd eu plant. Adroddir i rieni plant Dosbarth Derbyn yn ystod eu hanner tymor cyntaf yn yr ysgol. Cyflwynir Adroddiad Blynyddol i bob plentyn yn adrodd ar gyflawniad ar ddiwedd blwyddyn addysgol.

Cyflwynir cofnod o ganlyniadau Profion Cenedlaethol erbyn diwedd tymor yr haf.

Mae Adroddiad pob plentyn yn cynnwys canran presenoldeb am y flwyddyn.

# RHYNGRWDYD



## CANLLAWIAU

Wrth ddefnyddio Technoleg Gwybodaeth yn yr ysgol mae'r disgyblion yn cael cyfle, pan yn briodol, i ddefnyddio'r rhyngwrwyd. Rhwydwaith byd-eang o gyfrifiaduron yw'r rhyngwrwyd sy'n cynnwys miliynau o dudalennau o wybodaeth. Mae llawer o'r wybodaeth yn ddefnyddiol, ac o gymorth i waith y disgyblion ym mhob pwnc yn yr ysgol. Gall y disgyblion hefyd ddefnyddio e-bost i anfon negeseuon at ddefnyddwyr eraill ar draws y byd.

Yn anffodus mae rhywfaint o'r deunydd sydd ar y We Fyd Eang yn anghyfreithlon, yn ffaidd ac yn anaddas i blant. Er hyn mae'r ysgol yn credu bod y manteision a ddaw yn sgil defnyddio'r rhyngwrwyd yn llawer mwy na'r anfanteision.

Er mwyn ceisio sicrhau na fydd y disgyblion yn mynychu safleoedd anaddas ar y we, bydd yr athrawon yn llunio gweithgareddau pwrpasol ac yn goruchwyllo y defnydd wna'r disgyblion o'r rhyngwrwyd yn ystod y gwersi, gan arwain y disgyblion at adnoddau addas. Defnyddir hefyd feddalwedd arbennig sydd yn hidlo ac yn atal mynediad at safleoedd anaddas. Mae'n ofynnol i'r disgyblion ddeall a dilyn canllawiau'r ysgol ar gyfer defnyddio'r rhyngwrwyd.

Amgaeir isod gopi o'r canllawiau y disgwylir eu dilyn pan yn defnyddio'r rhyngwrwyd yn yr ysgol er mwyn i chi eu trafod gyda'ch plentyn / plant.

Gall rhieni ofyn i weld copi o bolisi'r ysgol.

# RHYNGRWDYD



## RHEOLAU'R RHYNGRWDYD

Defnydd cyfrifol o'r rhyngrwyd.

'Rydym ni'n defnyddio'r cyfrifiaduron ysgol a chysylltiad i'r rhyngrwyd er mwyn dysgu.

Bydd y rheolau hyn yn ein cynorthwyo i fod yn deg ag eraill ac i ddiogelu pawb.

- ◆ Fe ofynnaf ganiatad cyn chwilota ar y we.
- ◆ Ar rwydwaith, dim ond fy enw mewngofnodi a chyfrinair fy hun a ddefnyddiaf, ac fe'i cadwaf yn gyfyrnol.
- ◆ Ni edrychaf ar ffeiliau pobl eraill na'u dileu, heb ganiatad.
- ◆ Dim ond at bobl y mae'r athro/athrawes yn cymeradwyo yr anfonaf negeseuon e-bost.
- ◆ Bydd y negeseuon anfonaf yn gwrtais ac yn synhwyrol.
- ◆ Cyn anfon neges, byddaf yn ei ddangos i'r athro/athrawes.
- ◆ Wrth anfon e-bost, ni roddaf fy nghyfeiriad gartref na'm rhif ffôn na llun ohonaf i neb, ac ni threfnaf i gyfarfod â neb.
- ◆ Gofynnaf ganiatad cyn agor e-bost neu atodiad e-bost a anfonir gan rhywun nad ydw i'n ei adnabod.
- ◆ Ni ddefnyddiaf ystafell sgwrsio ar y rhyngrwyd.
- ◆ Os gwelaf rhywbeth nad wyf i'n ei hoffi, neu os derbyniaf negeseuon nad ydw i'n eu hoffi, fe ddywedaf wrth athro'n syth.
- ◆ Rwy'n gwybod efallai y gwnaiff yr ysgol edrych ar fy ffeiliau ac efallai y gwnant fonitro'r safleoedd rydw i'n ymweld â nhw.
- ◆ Rwy'n deall os y torraf y rheolau hyn yn fwriadol, y gellir fy ngwahardd rhag defnyddio'r rhyngrwyd neu gyfrifiaduron.

# GWEITHGAREDDAU



## CYNGOR YSGOL

Mae Cyngor Ysgol Bryngwran yn awyddus i roi lle amlwg i lais y plant. Mae aelodau etholedig y Cyngor Ysgol yn gyfrifol am:

- ◆ Rhoi cyfle i'r disgyblion roi barn ar beth sydd yn digwydd yn yr ysgol
- ◆ Rhoi cyfle i ddisgyblion gymryd rhan mewn penderfyniadau am beth sydd yn digwydd yn yr ysgol.
- ◆ Rhoi cyfle i'r disgyblion gyfrannu at wneud yr ysgol yn lle hapusach i bawb.
- ◆ Creu gwell dealltwriaeth rhwng disgyblion ac athrawon ac aelodau eraill o staff.
- ◆ Ystyried Y Siarter Iaith wrth lunio blaenoriaethau.

## YSGOL IACH

Mae'r ysgol yn perthyn i gynllun Ysgolion Iach Môn ac Ysgolion Gwyrdd. Rhydd hyn gyfleoedd i'r disgyblion sylweddoli pwysigrwydd cadw'n iach a ffitrwydd yn ogystal â materion yn ymwneud a chadwraeth, ail-gylchu ac arbed ynni.



## YSGOL 'MASNACH DEG'

Mae'r ysgol yn ymroi i gefnogi egwyddoriom 'Masnach Deg'. Cynhelir gweithgareddau tymhorol sy'n sy'n gysylltiedig a hyrwyddo egwyddorion 'Masnach Deg'.



# GWEITHGAREDDAU



## CLYBIAU

Clwb	Amser	Cost
Clwb Gwarchod	Dyddiol 3.15-3.30pm	50c
Clwb Campus	Dydd Llun - 3.15-5.00	£4
Clwb Hwyl	Dydd Mawrth - 3.15-4.15	£2
Clwb Chwaraeon	Dydd Mercher 3.15-4.30	£3
Clwb Hwyr (Dan ofal Y Cylch)	Dydd Iau 3.15-4.30	£3

Mae croeso i'n holl ddisgyblion ymuno yng ngweithgareddau'r clybiau ar ôl ysgol. Clwb Hwyl i gynnwys y Plant Meithrin! Goruchwylir y plant gan oedolion cymwys.

Gobeithia'r ysgol sicrhau cyd-weithrediad a chefnogaeth y rhieni gyda'r holl weithgareddau ychwanegol a drefnir.

Ni all yr ysgol dderbyn cyfrifoldeb am oruchwylio plant ar derfyn sesiynau'r clybiau, a gofynnir i rieni/gwarcheidwaid sicrhau eu bod yn gwneud trefniadau i hebrwng eu plant adref yn ddiogel.

## YR URDD

Anogir disgyblion i ymaelodi â'r Urdd. Ceir cyfle i gymryd rhan yn holl weithgareddau amrywiol yr Urdd gan gynnwys cystadlaethau chwaraeon, mabolgampau, nofio, disgos ac eisteddfodau.

Ceir cyfle'n ogystal i fynychu gwersylloedd yr Urdd.

## CRIW CRAFF!

### Cymdeithas Rieni a Ffrindiau - 'Cryw CRAFF'

Mae Cymdeithas Rieni/athrawon yr ysgol yn ffynnu. Mae'r criw cefnogol yn llwyddiannus iawn wrth fynd ati i drefnu digwyddiadau i gefnogi'r ysgol, ac maent wedi bod yn gyfrifol am godi llawer a arian a'n galluogodd i brynu offer ac adnoddau i'r plant. Estynnir croeso i bob rhiant ddatgan diddordeb mewn ymuno. Mae'r gweithgareddau drefnir yn hwyllog ac yn denu cefnogaeth; rhain yn cynnwys achlysuron cymdeithasol yn ogystal a gweithgareddau i godi arian er budd yr ysgol yn ystod y flwyddyn.

# EIDDO PERSONOL



## GWISG YSGOL

Mae gennym wisg ysgol swyddogol ac anogwn ein disgyblion i'w gwisgo. Teimlwn bod gwisg ysgol yn arwain at feithrin balchder yn yr ysgol ac yn hyrwyddo ymdeimlad o berthyn. Gellir archebu gwisg ysgol gan gwmni 'School Trends' yn yr ysgol.

### **Merched**

Sgert neu drowsus glas tywyll/ llwyd. Ffrog ysgafn, las golau pan mae'n braf!  
Crys polo glas golau,  
Siwmpwr, crys chwys neu gardigan las dywyll.

### **Bechgyn**

Trowsus du neu lwyd. Siorts pan mae'n braf!  
Crys polo glas golau.  
Siwmpwr neu grys chwys glas tywyll.

### **Gofynnwn yn garedig i chwi nodi enw'ch plentyn yn glir ar bob dilledyn i arbed colledion.**

Nid yw'r Corff Llywodraethol yn derbyn cyfrifoldebau am unrhyw golled neu ddifrod i eiddo personol plentyn, rhiant na pherson arall ar dir yr ysgol.

Dylid dod a dillad i newid ar gyfer gwersi addysg gorfforol a chwaraeon.

Ni ddylid dod a gemau, ffonau symudol na theganau electroneg i'r ysgol.

Ni all yr ysgol fod yn gyfrifol am feiciau ond yn ystod y dydd yn y cyfnod pan mae disgyblion yn derbyn gwersi beicio. Disgwylir i blant sy'n dod i'r ysgol ar eu beics, eu cadw, a'u cloi yn y cwt beics.

## GWALLT A THLYSAU

Dylai gwallt disgyblion fod yn daclus.

Gofynnir i rieni archwilio gwallt eu plant yn rheolaidd. Ambell dro cyfyd achos o lau pen. Gofynnir i rieni hysbysu'r ysgol os ydynt yn canfod achos o'r fath.

Ni ddylid gwisgo tlysau anaddas i'r ysgol.

Ni chaniateir i unrhyw blentyn wisgo tlysau yn ystod gwersi Addysg gorfforol.

# GOFAL BUGEILIOL



## AMDDIFFYŶN PLANT

Fel rhan o'r gyfundrefn amddiffyn plant, mae gan athrawon a staff ategol yr ysgol hon ddyletswydd i adnabod arwyddion o gamdriniaeth neu esgeleustod posibl a chyfeirio'u pryderon at y personau cyfrifol yn yr ysgol neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn syth. Mae gan yr ysgol bolisi ar 'Amddiffyn Plant rhag eu Camdrin'. Mae'n rhaid i'r ysgol gyfeirio achosion ble amheuir camdriniaeth i sylw'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Y Person dynodedig yn yr ysgol ydi

**Dwynwen Llwyd Powell.**

**Andrea Scase Thomas**

sy'n gyfrifol yn absenoldeb y Pennaeth.

Llywodraethwr dynodedig -

**Mrs Marian Parry.**

Rhifcyswllt - Teulu Mon: 01248 725 888

Cyfeiriad:

Gwasanaethau Plant

Swyddfa'r Cyngor

Cyngor Sir Ynys Môn

Llangefni

Ynys Môn

LL77 7TW

Teulu Môn Tîm Dyletswydd Plant/Duty Desk:

☎ **01248 725888 (9am – 5pm - Dydd Llun i Dydd Gwener / Monday to Friday)**

E-bostiwch ar/Email at: [teulumon@ynysmon.gov.uk](mailto:teulumon@ynysmon.gov.uk)

Teulu Môn Tu allan i oriau/ Out of Hours: ☎ **01248 353551**

Teulu Môn Tîm o Gwmpas y Teulu/ Team Around the Family: ☎ **01248 752913**

Heddlu/ Police: ☎ **101** neu argyfwng (ymateb syth) or emergency (rapid response): ☎ **999**

Uwch Swyddog Diogelu Adran Dysgu Gydol Oes

Delyth Lloyd Griffiths

01286 838 196 07977504344



# GOFAL BUGEILIOL



## Tîm Amddiffyn Plant : Child Protection Team



**Mrs Dwynwen Llwyd Powell**

Uwch Swyddog Dynodedig Amddiffyn Plant/  
Child Protection Designated Senior Person



**Mrs Andrea Thomas**

Dirprwy Uwch Swyddog Dynodedig Amddiffyn Plant/  
Deputy Child Protection Designated Senior Person

Teulu Môn Tîm Dyletswydd Plant/Duty Desk:

☎ 01248 725888 (9am – 5pm - Dydd Llun i Dydd Gwener / Monday to Friday)

E-bostiwch ar/Email at: [teulumon@ynysmon.gov.uk](mailto:teulumon@ynysmon.gov.uk)

Teulu Môn Tu allan i oriau/ Out of Hours: ☎ 01248 353551

Teulu Môn Tîm o Gwmpas y Teulu/ Team Around the Family: ☎ 01248 752913

Heddlu/ Police: ☎ 101 neu argyfwng (ymateb syth) or emergency (rapid response): ☎ 999

Uwch Swyddog Diogelu Adran Dysgu Gydol Oes

Delyth Lloyd Griffiths : 01286 838 196 07977504344

# CYFFREDINOL



## YMWELIADAU

Trefnir ymweliadau addysgiadol amrywiol sy'n ymwneud â'r themâu tymhorol. Bydd yr athrawon dosbarth yn ymchwilio i ymweliadau pwrpasol fydd yn symbylu a chyfoethogi dysgu ac addysg effeithiol.

Gwahoddir siaradwyr gwadd i annerch y plant yn yr ysgol yn achlysurol.

## TEITHIAU PRESWYL

Trefnir teithiau preswyl i'r plant yn flynyddol. Rhydd ymweliadau o'r fath gyfle i'r plant gymdeithasu a phrofi sgiliau bywyd.

### **Glan Llyn**

Caiff aelodau'r Urdd o flwyddyn 3 a 4 gyfle i ymweld â Gwersyll Glan Llyn lle cant gyfle i fwynhau gweithgareddau awyr agored amrywiol.

### **Caerdydd a Llundain!**

Bydd disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn cael cyfle i ymweld â'r Prifddinasoedd yn nhymor yr haf. Cant brofiadau amrywiol tra'n ymweld ag atyniadau enwog yn y Dinasoedd.

## CODI TÂL

Gofynnwn yn garedig am gyfraniad arianol tuag at gostau ymweliadau neu weithgareddau addysgiadol. Danfonir gwybodaeth berthnasol ar ffurf llythyr sy'n cynnwys caniatad rhieni i'r plentyn gymryd rhan yn y weithgaredd honno.

## TYWYDD GARW

Gwenir pob ymdrech i gadw'r ysgol ar agor. Os mewn amheuaeth cysylltwch â'r ysgol. Weithiau, bydd angen anfon y plant gartref yn gynnar ond byddwn yn ffonio'r cartref yn gyntaf neu gysylltu â'r system 'teachers2parents'.

# DATGANIAD O FWRIAD A DISGWYLIAD

Mae'r Datganiad o Fwriad a Disgwyliad yn gosod canllawiau pendant ar gyfer nodi'n glir yr hyn sy'n ddisgwyliedig gan ei holl bartneriaid. Cafodd y Datganiad hwn ei baratoi er mwyn amlinellu'n eglur nôd yr ysgol a sefydlu rôl yr ysgol, y rhieni a'r disgyblion yn y bartneriaeth hanfodol hon. Nôd sylfaenol yr ysgol yw darparu addysg o ansawdd ragorol mewn amgylchedd cartrefol ac annog pob disgybl i wneud ei orau.

Mae cyfraniad pob un o'r partneriaid i'r datblygiad hwn wedi eu rhestru yn y datganiad.



	Fel ysgol byddwn yn gwneud ein gorau ...	Fel rhiant byddaf yn gwneud fy ngorau...	Fel disgybl byddaf yn gwneud fy ngorau...
<b>Safon yr Addysg</b>	<p>i ddarparu'r addysg orau o ystyried yr adnoddau sydd ar gael</p> <p>i gynnig cwricwlwm eang, cytbwys a pherthnasol yn seiliedig ar ofynion y cwricwlwm cenedlaethol a Fframwaith y Cyfnod Sylfaen</p> <p>i osod targedau tymhorol ar gyfer pob disgybl</p>	<p>i gymryd diddordeb yng ngwaith fy mhlentyn</p> <p>i'w annog i wneud ei orau bob amser</p> <p>i'w annog i wrando ar ei athrawon a gwneud ei orau yn y dosbarth</p>	<p>i wrando ar yr athrawon a gweithio'n galed yn y dosbarth</p> <p>i wneud fy ngorau glas i gwblhau pob tasg</p> <p>i anelu at roi'r ymdrech orau bob amser</p> <p>i fod yn foesgar, yn gwrtais ac i ddangos parch tuag at eraill</p>
<b>Ethos yr ysgol</b>	<p>i hyrwyddo agweddau cadarnhaol ac arddel disgwyliadau uchel</p> <p>i hyrwyddo parch tuag at athrawon, disgyblion a'r gymuned</p> <p>i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol a chymdeithasol pob plentyn</p>	<p>i gefnogi fy mhlentyn yn yr hyn a ddisgwyliar gan yr ysgol</p> <p>i annog fy mhlentyn i fod yn foesgar a chwrtais gan ddangos parch tuag at eraill</p> <p>i ddangos diddordeb yng ngweithgareddau'r ysgol ac annog fy mhlentyn i gymryd rhan</p>	<p>i ymdrechu hyd eithaf fy ngallu bob amser</p> <p>i fod yn foesgar, yn gwrtais ac i ddangos parch tuag at eraill</p> <p>i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r ysgol</p>
<b>Presenoldeb Rheolaidd</b>	<p>i annog a gwobrwyo presenoldeb a phrydlondeb da</p> <p>i ddwyn presenoldeb gwael neu afreolaidd i sylw rhieni a chymeryd y camau priodol i ddelio â'r broblem</p>	<p>i wneud yn siwr fod fy mhlentyn yn mynychu'r ysgol bob dydd</p> <p>i hysbysu'r ysgol ar ddiwrnod cyntaf absenoldeb fy mhlentyn</p>	<p>i fynychu'r ysgol bob dydd</p> <p>i gyrraedd yr ysgol yn brydlon</p>
<b>Disyblaeth ac Ymddygiad</b>	<p>i sicrhau bod pob disgybl yn ymddwyn yn ôl disgwyliadau'r ysgol</p> <p>i sicrhau bod pob disgybl yn parchu'r staff, yn parch ei gilydd ac yn parchu eiddo eraill</p>	<p>i annog fy mhlentyn i ymddwyn yn deilwng bob amser</p> <p>i annog fy mhlentyn i gydymffurfio â disgwyliadau'r ysgol ac i barchu pob un o'r athrawon a'r disgyblion eraill</p>	<p>i ymddwyn yn rhesymol y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol, gan barchu'r athrawon a'r disgyblion eraill a rheolau'r ysgol</p> <p>i barchu eiddo'r ysgol ac eiddo fy nghyd ddisgyblion</p>
<b>Gwaith Cartref</b>	<p>i ddarparu gwaith cartref yn ôl trefn yr ysgol</p> <p>i fynnu gwaith o'r safon uchaf</p> <p>i fynnu bod gwaith cartref yn cael ei gwblhau yn brydlon</p>	<p>i ddangos diddordeb yng ngwaith cartref fy mhlentyn</p> <p>i annog fy mhlentyn i gwblhau pob gwaith cartref yn brydlon</p>	<p>i wneud fy ngwaith cartref yn ofalus ac yn ôl y cyfarwyddyd</p> <p>i wneud fy ngorau i orffon bob gwaith cartref a'i gyflwyno'n brydlon</p>
<b>Cefnogaeth Fugeiliol</b>	<p>i ofalu am ddiogelwch a hapusrwydd pob plentyn</p> <p>i ddarparu trefn gynhaliol sy'n rhoi clust i bryderon ac ymateb yn gyflym iddynt.</p>	<p>i roi gwybod i'r ysgol am unrhyw bryderon a allai effeithio ar gynnydd fy mhlentyn</p>	<p>i hysbysu fy athrawon neu'r Pennaeth os bydd gennyf unrhyw bryderon a allai effeithio ar fy ngwaith neu ar fy hapusrwydd yn yr ysgol</p>
<b>Cysylltiadau rhwng yr ysgol a'r cartref</b>	<p>i gynnal nosweithiau rhieni rheolaidd i drafod cynnydd</p> <p>i ddarparu adroddiadau blynyddol</p> <p>i hysbysu am bolistâu a gweithgareddau</p>	<p>i fynychu cyfarfodydd rhieni</p> <p>i ddarllen llythyrau ac unrhyw ohebiaeth arall o'r ysgol ac ymateb iddynt</p>	<p>i fynd a phob llythyr a gohebiaeth arall adref</p>